


Coleg Gwent

# FFIOEDD
## POLISI

Polisi Ffioedd

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** | Diweddarwyd |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg:** | Diweddarwyd |
| **Cymeradwywyd gan:** | Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau |
| **Haen:** | 2 |
| **Awdur:** | Cyfarwyddwr Cyswllt (Cyllid) |
| **Dyddiad a Gymeradwywyd:** | Chwefror 2026 |
| **Dyddiad a Adolygwyd:** | Chwefror 2027 |
| **Cyhoeddwyd ar:** | Gwefan<br>Mewnrwyd y Staff<br>Cyswllt CG |
| **Hygyrchedd:** | Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais |

Gall y copi hwn fod wedi dyddio os yw wedi ei argraffu.
Mae ein holl bolisïau a'n gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar [fewnrwyd y staff]

**PWRPAS A CHWMPAS**

Mae'r Polisi Ffioedd yn darparu fframwaith ar gyfer gosod ffioedd dysgu'r Coleg ac mae'n manylu ar yr amodau lle gellir eu hepgor neu eu gostwng. Yn fras, mae'r Polisi yn ymdrin â phob math o incwm ffioedd dysgu a godir gan y Coleg, gan gynnwys AB, AU, AALL, Rhyngwladol a Masnachol.

**MANYLION Y POLISI**

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Bob blwyddyn, mae Coleg Gwent yn codi ffioedd ar gyfer ei raglenni astudio ac mae'r ffioedd hyn yn debygol o newid o flwyddyn i flwyddyn. Gellir dod o hyd i Ffioedd Dysgu, lle bo'n berthnasol, ar y taflenni cwrs yn *http://www.coleggwent.ac.uk*

1.2. Mae'r holl ffioedd, oni bai y nodir hwy yn wahanol o fewn y daflen gwrs y gellir ei chyrchu yn ***http://www.coleggwent.ac.uk***, am 1 flwyddyn yn unig, ac maent yn daladwy fel rhan o'r broses ymgeisio/gofrestru.

1.3 Nid oes rhaid talu ffioedd dysgu ar gyfer dysgwyr *gartref* sy'n dilyn Rhaglen Amser Llawn mewn Maes Dysgu Addysg Bellach a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Efallai y codir ffioedd sy'n gysylltiedig â'r cwrs ar gyfer cit, deunyddiau, nwyddau traul, dillad arbenigol ayyb. Efallai na fydd ffioedd cwrs o'r fath bob amser yn daladwy i'r coleg yn uniongyrchol. Mae'r manylion am y ffioedd ychwanegol i'w talu ar gael yn *http://www.coleggwent.ac.uk* y taflenni cwrs. Ar gyfer canllawiau ar gostau Arholiadau, cyfeiriwch at adran 2 o'r polisi hwn.

Ni chodir tâl ar ddysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer cwrs TGAU Rhan-amser mewn Saesneg neu Fathemateg ochr yn ochr â'u cwrs amser llawn. Codir ffioedd ar gyfer cyrsiau Rhan-amser eraill yn unol ag adrannau 1.4 ac 1.5

1.4 Nid oes **Ffioedd Dysgu** yn daladwy ar gyfer Cwrs Addysg Bellach Rhan-amser a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddysgwyr gartref sydd wedi cwblhau eu haddysg orfodol ac sydd dros 16 oed ond o dan 19 oed ar 31 Awst y flwyddyn y dechreuon nhw astudio. Mae ffioedd **Cofrestru** ac **Arholiadau** yn daladwy ar gyfer cyrsiau rhan-amser, beth bynnag eu hoedran. Efallai y ceir ffioedd cysylltiedig â'r cwrs am ddeunyddiau, dillad arbenigol, gwiriadau DBS ayyb.

Mae dysgwyr dros 19 oed ar 31 Awst y flwyddyn y dechreuon nhw astudio ynddi yn gyfrifol am dalu am yr HOLL ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser, megis ffioedd dysgu, cofrestru, arholiadau ac unrhyw ffi arall sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Mae manylion ynghylch y costau hyn ar gael yn *http://www.coleggwent.ac.uk* yn y taflenni cwrs.

1.5 Ar gyfer Cyrsiau Addysg Bellach **nad ydynt** wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, (megis dysgwyr tramor), mae dysgwyr dros 19 oed ar 31 Awst y flwyddyn y dechreuon nhw astudio ynddi yn gyfrifol am dalu am yr HOLL ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser, megis ffioedd dysgu, cofrestru, arholiadau ac unrhyw ffi arall sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

Bydd angen i ddysgwr rhwng 16 ac 18 oed dalu Ffioedd Dysgu os nad yw'r cwrs sy'n cael ei astudio wedi'i gynnwys yn rhan o gwmpas cyffredinol Cymru ar gyfer cyllid cyrsiau rhan-amser Llywodraeth Cymru yn unig. Felly:

- **Ni** fydd yn rhaid i ddysgwr 16-19 oed dalu am ffioedd dysgu ar gyfer unrhyw gwrs lle mae'r cymhwyster sy'n cael ei astudio wedi'i restru i fod yn gymwys ar gyfer cyllid gan

Lywodraeth Cymru ar Chwilio Cymwysterau (Cymwysterau yng Nghymru (qiw.wales) Maent yn gymwys o hyd ar gyfer unrhyw ffioedd cwrs eraill e.e. Arholiadau, Cofrestru ayyb.

- Bydd yn rhaid i ddysgwr 16-18 oed dalu am ffioedd dysgu ac unrhyw ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs megis ffioedd arholiadau ar gyfer unrhyw gwrs lle nad yw'r cymhwyster sy'n cael ei astudio wedi'i restru i fod yn gymwys ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru ar Chwilio Cymwysterau (Cymwysterau yng Nghymru (qiw.wales))

Oni bai bod Nawdd Cyflogwyr mewn lle, y dysgwyr sydd yn bennaf yn gyfrifol am dalu eu ffioedd.

1.6 Codir ffioedd dysgu ar bob dysgwr Addysg Uwch Tystysgrif Genedlaethol Uwch/Gradd Sylfaen/BA a BSC Atodol/TAR sy'n dilyn cyrsiau breiniol yn unol â threfniadau cytundebol y Coleg gyda'r Brifysgol bartner. Mae amserlen Ffioedd Dysgu Addysg Uwch y Coleg ar gael yn http://www.coleggwent.ac.uk

Oni bai fod Nawdd Cyflogwyr, neu gyllid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru mewn lle, y dysgwyr sydd yn bennaf yn gyfrifol am dalu eu ffioedd.

1.7 At ddibenion y Polisi hwn, mae dysgwyr ond yn gymwys ar gyfer ffioedd cartref os ydynt yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru o fod naill ai'n ddinesydd y DU neu Weriniaeth Iwerddon, ac os nad yw'n ddinesydd y DU/Weriniaeth Iwerddon (ac yna yn destun meini prawf penodol), gallant fod yn gymwys os ydynt yn:

- Geisiwr lloches
- Ffoadur
- Meddu ar fisa sy'n gysylltiedig â'r gwaith
- Meddu ar statws sefydlog
- Meddu ar statws cyn-sefydlog

Mae'r canllawiau a'r cymhwysedd yn gymhleth ac maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Dylai unrhyw ddarpar ddysgwr nad yw'n ddinesydd y DU/Weriniaeth Iwerddon gysylltu â Swyddfa Ryngwladol y coleg i ofyn am arweiniad ynghylch ei gymhwysedd a'i ffioedd.

1.8 Ni chaniateir i unrhyw ddysgwr sydd â dyledion heb eu casglu gofrestru ar unrhyw safle Coleg neu symud ymlaen o fewn rhaglen astudio nes y telir yr holl ffioedd sy'n ddyledus.

1.9 Gellir dod o hyd i wybodaeth am gostau ychwanegol ar y daflen wybodaeth cwrs berthnasol yn www.coleggwent.ac.uk.

1.10 Gallai dysgwyr, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau a'r cwrs, feddu ar hawl i Hepgor Ffioedd yn llawn neu'n rhannol. Ceir rhagor o fanylion ar gymhwysedd i Hepgor Ffioedd ar y daflen wybodaeth cwrs berthnasol yn www.coleggwent.ac.uk.Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod Hepgor Ffioedd yn berthnasol yn erbyn Ffioedd Dysgu yn unig. Mae pob ffi arall yn daladwy o hyd.

1.11 Gallai'r dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer Hepgor Ffioedd feddu ar hawl o hyd i gyrchu dulliau eraill o Gymorth Ariannol, y mae eu manylion ar gael yn www.coleggwent.ac.uk

1.12 **NID** yw hepgor ffioedd yn berthnasol i gyrsiau masnachol dynodedig neu gyrsiau â ffioedd uwch lle mae'r dysgwr dros 19 oed.

1.13 Mae'r coleg yn cadw'r hawl i gynnig gostyngiad dewisol i ddysgwyr a gyflogir gan sefydliadau sydd wedi'u cofrestru â Phartneriaeth Addewid Cyflogwyr y Coleg. Gellir dod o hyd i fanylion am gynllun Addewid Cyflogwyr yn www.coleggwent.ac.uk

1.14 Nod y coleg yw rhedeg pob cwrs Rhan-amser fel y'u cynlluniwyd a'u hysbysebwyd trwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol. Lle ceir risg na fydd cwrs yn rhedeg oherwydd diffyg galw neu amgylchiadau esgusodol eraill, bydd y coleg yn rhoi pythefnos o rybudd o hyn cyn dyddiad cychwyn y cwrs a hysbysebir.

1.15 Lle bydd dysgwr yn gofyn am drosglwyddo rhwng cyrsiau, codir ffi am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i gwrs newydd. Mewn achosion lle y gall y coleg gael ad-daliad ar y symiau a dalwyd fel rhan o'r broses gofrestru ar gyfer y cwrs gwreiddiol, caiff y rhain eu gosod yn erbyn y costau hyn.

## 2. FFIOEDD ARHOLIADAU

2.1 Mae Ffioedd Arholiadau yn seiliedig ar ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu.

2.2 Bydd Ffioedd Arholiadau a delir gan y coleg ar gyfer dysgwyr sy'n ymgymryd â Rhaglen Amser Llawn mewn Maes Dysgu Addysg Bellach yn cwmpasu'r cofrestriad, y cofnodion, yr ardystiad a'r tro cyntaf y caiff yr arholiad ei sefyll.

2.3 Bydd rhaid i'r dysgwr dalu am unrhyw gostau ailsefyll arholiad a asesir yn allanol (oni bai bod amgylchiadau esgusodol a gadarnhawyd gan y Pennaeth Ysgol).

2.4 Efallai y gellir ailgodi'r ffi arholiad ar ddysgwyr os ydynt yn methu â mynychu arholiad heb reswm dilys.

2.5 Mae modd i bob dysgwr UG/Safon Uwch wneud cais i dalu i ailsefyll arholiad ar eu cost eu hunain os ydynt am wella ei radd.

2.6 Rhaid i Bennaeth Ysgol y dysgwr gymeradwyo pob cais i ailsefyll arholiadau.

2.7 Bydd y coleg yn talu am ffioedd dysgu ar gyfer Prentisiaethau Coleg Gwent gan gynnwys y cofrestriad, y cofnodion, yr ardystiad a'r tro cyntaf y caiff yr arholiad ei sefyll. Bydd rhaid i'r dysgwr dalu am unrhyw gostau ailsefyll arholiad a asesir yn allanol (oni bai bod amgylchiadau esgusodol a gadarnhawyd gan y Pennaeth Ysgol). Efallai y gellir ailgodi'r ffi arholiad ar ddysgwyr os ydynt yn methu â mynychu arholiad heb reswm dilys.

Bydd rhaid i ymgeiswyr allanol sy'n sefyll arholiad yn Coleg Gwent gael caniatâd gan Bennaeth y Ganolfan, a bydd gofyn iddyn nhw dalu ffioedd ychwanegol er mwyn cwmpasu costau. Hysbysir y ffi i chi ar ôl cyflwyno cais.

## 3. TALIADAU

3.1 Mae Coleg Gwent yn casglu ffioedd cwrs yn unol â thelerau'r polisi hwn â pholisïau cysylltiedig eraill. Mae ffioedd yn daladwy ar adeg archebu/cofrestru ac mae'r coleg yn derbyn yr ystod o ddulliau talu a amlinellir isod:

- Ar-lein gan ddefnyddio cerdyn Debyd/Credyd
- Dros y ffôn i adran Gyllid y Coleg drwy ffonio 01495 333777, opsiwn 1,2,2,3
- Wyneb yn wyneb yn yr adran Gwasanaethau Cwsmer ar unrhyw safle'r coleg
- Trosglwyddiad banc, gan ddyfynnu'r Rhif Adnabod Dysgwr fel cyfeirnod i:

Coleg Gwent    Cod Didoli: 30 92 49 Rhif Cyfrif: 00123505

- Rhandaliadau Debyd Uniongyrchol. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y tîm Cyllid Canolog. Bydd unrhyw Ddebyd Uniongyrchol sy'n methu yn codi ffi o £15 yn uniongyrchol.

Gellir cysylltu â thîm Cyllid y Coleg drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: salesledger@coleggwent.ac.uk neu drwy alw'r rhif a ddyfynnir uchod.

3.2 Nid yw'r coleg yn derbyn cardiau American Express.

3.3 Lle bo'r cyflogwr yn talu'r ffioedd, rhaid i ddysgwyr sicrhau fod y coleg yn cael **Ffurflen Talu Ffioedd i Gyflogwyr (Employers Payment of Fees Form)** fel arall, caiff y dysgwr ei anfonebu a bydd yn atebol am y cyfanswm sy'n ddyledus. Mae llythyr ar bapur pennawd y Cwmni neu neges e-bost oddi wrth y cyflogwr hefyd yn ddull awdurdodi sy'n dderbyniol.

Dylai dysgwyr sy'n cofrestru fel rhan o Brentisiaeth (heblaw am achosion lle Coleg Gwent yw'r darparwr) ddarparu prawf fod eu Darparwr Hyfforddiant wedi cymeradwyo eu cofrestriad ac yn cymryd cyfrifoldeb dros dalu eu ffioedd.

3.4 Rhaid i bob dysgwr AU sy'n cael cymorth ariannol gyflwyno copi o'u llythyr o hysbysiad ariannol dan y pennawd 'Cyngor ar Dalu Prifysgol neu Goleg' ar adeg cofrestru yn Coleg Gwent neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Mae'r cyngor hwn yn cyfeirio at swm y ffioedd dysgu sy'n daladwy gan Gyllid Myfyrwyr. Mae hefyd yn cynnwys y Rhif Cymorth i Fyfyrwyr sy'n ofynnol er mwyn rhyddhau'r taliadau ffioedd dysgu a grantiau myfyrwyr. Cyfrifoldeb y dysgwr o hyd yw talu unrhyw ffioedd sy'n weddill.

3.5 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw drafod ariannol lle nad oes modd adnabod neu gadarnhau o le ddaeth y taliad.

3.6 Ar gyfer cyrsiau Addysg Bellach Rhan-amser, ni chaiff archeb ei throsi i Gofrestriad hyd nes y gwneir taliad neu nes y cadarnheir cynllun talu gyda'r adran Gyllid.

3.7 Os yw'r taliad yn ddyledus am 7 diwrnod dilynol neu fwy o'r dyddiad archebu, mae'r coleg yn cadw'r hawl i gau'r archeb yn awtomatig.

3.8 Lle gwneir archebion o fewn 3 diwrnod o'r cwrs yn dechrau, ar ddiwrnod dechrau'r cwrs neu pan fydd y cwrs eisoes wedi dechrau heb dalu amdano ar adeg archebu, mae'r coleg yn cadw'r hawl i gau'r archeb yn awtomatig a gellir atal y dysgwr rhag cael mynediad at y dosbarth.

## 4. METHU TALU FFIOEDD DYSGU

4.1 Yn unol ag adran 3.7, ar gyfer archebion newydd, os yw taliad yn ddyledus am 7 diwrnod dilynol neu fwy o'r dyddiad archebu, neu os na chytunwyd ar gynllun talu gyda'r tîm Cyllid, mae'r coleg yn cadw'r hawl i gau'r cais yn awtomatig.

4.2 Yn unol ag adran 1.8, gallai dysgwyr sy'n methu neu'n colli'r taliadau y cytunwyd arnynt gael eu gwahardd o'r Coleg os na wneir trefniadau boddhaol gyda'r Adran Gyllid i ddatrys y mater o beidio â thalu. Ni chaniateir i ddysgwyr sydd wedi methu neu golli'r taliadau y cytunwyd arnynt ond nid ydynt wedi dechrau eu cyrsiau ddechrau eu cyrsiau. Mae trefniadau boddhaol yn cynnwys:

- Talu am y cyfrif yn llawn neu
- Gynllun ad-dalu y cytunwyd arno gyda'r adran Gyllid

- Sefydlu trefniadau Debyd Uniongyrchol y cytunwyd arnynt ac yna cynnal ad-daliadau boddhaol heb fethu
- Cyflwyno tystiolaeth o Noddwr yn talu'r ffi ar ffurf Ffurflen Dalu Ffioedd i Gyflogwyr wedi'i llofnodi. Os yw Noddwr yn methu â thalu o fewn 60 diwrnod o'r dyddiad anfonebu, bydd atebolrwydd yn dychwelyd i'r dysgwr a fydd yn cael ei anfonebu am y ddyled sydd i'w thalu o hyd
- Cadarnhad o gyllid gan Gwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (Student Loans Company - SLC) ar gyfer benthyciad ffioedd dysgu i dalu'r Cwmni dyledion (SLC) ar gyfer benthyciad ffioedd dysgu i dalu am gost y ffi (Dysgwyr AU Amser Llawn o'r DU neu'r UE yn unig) o fewn y tymor cyntaf
- Cyflwyno tystiolaeth o Fudd-dal Prawf Modd er mwyn caniatáu hepgoriad ffi llawn neu rannol posibl i allu ail-gyfrifo'r ffi
- Cyflwyno tystiolaeth o dderbyn Benthyciad Datblygu Gyrfa

4.3 Os oes rhaid trosglwyddo cyfrif i gasglwr dyledion y Coleg (TNC Collections), codir tâl ychwanegol o 10% o'r balans sy'n weddill ar gyfrif y dysgwr (o leiaf £10)

4.4 Gall parhau i beidio â thalu unrhyw falans sy'n weddill ar ôl cyfeirio'r cyfrif at TNC arwain at gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn erbyn y dysgwr. Yn y sefyllfa hon, codir llog a thaliadau gweinyddol yn ddyddiol ar y cyfrif, rhywbeth a allai arwain at godi Dyfarniad Llys Sirol yn erbyn y dysgwr.

4.5 Mae ffioedd cwrs penodol sy'n cwmpasu cyrsiau 2 flynedd o hyd yn daladwy yn llawn ar adeg gofrestru ac maent yn cwmpasu cyfnod 2 flynedd lawn y cwrs. Nid yw ad-dalu ffioedd yn daladwy os nad yw'r dysgwr yn dechrau ail flwyddyn cyrsiau o'r fath, oni bai y gellir bodloni unrhyw ran o'r meini prawf cymhwyso a nodir yn y 'Polisi Ailasesu Ffioedd'. Cyfeiriwch at y taflenni gwybodaeth y gellir eu cyrchu yn http://coleggwent.ac.uk

## 5. APELIADAU FFIOEDD

### AILASESU FFIOEDD – CYRSIAU ADDYSG BELLACH

5.1 Mae gan ddysgwyr yr hawl i fynnu ad-daliad llawn o daliadau a wnaethpwyd hyd at 14 diwrnod ar ôl cadarnhau **Archebu** lle ar gwrs.

Os bydd dysgwr yn tynnu ei gais yn ôl dros bedair wythnos cyn dyddiad dechrau ei gwrs, yna bydd yn gyfrifol am dalu'r blaendal yn unig.

Yn dilyn y cyfnod hwn, bydd ffioedd yn daladwy o hyd, hyd yn oed os yw'r dysgwr yn dewis peidio â dilyn (neu gwblhau) y cwrs.

Ar gyfer cyrsiau sy'n para dros un flwyddyn, gyda ffi o flaen llaw yn cael ei chodi, ni fydd ad-daliad yn daladwy os yw'r dysgwr yn tynnu allan o'r cwrs cyn ei gwblhau y tu allan i'r meini prawf cymhwyso a nodir yn nhermau Ail-asesu Adran 5.3.

5.2 Os bydd dysgwr sy'n dewis cymryd saib yn ei ddysgu, bydd yn gyfrifol am yr holl gostau sy'n ddyledus hyd yma. Ni chodir symiau pellach sy'n gysylltiedig â'r cwrs o ddyddiad y saib, codir y symiau hyn pan fydd y dysgwyr yn dychwelyd i'r rhaglen. Os yw dysgwr eisoes wedi talu'n llawn ar gyfer y cwrs, ni fydd y symiau a dalwyd yn cael eu had-dalu ond cânt eu rhoi yn erbyn costau'r dyfodol pan fydd y dysgwr yn dychwelyd.

5.3 Bydd unrhyw ddysgwr sy'n archebu lle ar gwrs sydd i fod i ddechrau o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad archebu yn ildio ei hawl i ad-daliad awtomatig.

5.4 Y tu allan i'r amserlenni a nodir yn Adran 5.1, bydd y coleg ond yn ystyried hepgor neu ad-

dalu'r holl ffioedd Rhan-amser (neu gyfran ohonynt) dan yr amgylchiadau eithriadol canlynol:

Dysgwyr **Addysg Bellach** sy'n talu eu ffioedd eu hunain:

- Nid yw'r Coleg yn rhedeg cwrs, neu mae'n cau'r cwrs ar ôl iddo ddechrau
- Nid oes modd i ddysgwyr fwrw ymlaen a'u cwrs oherwydd afiechyd. Rhaid i geisiadau am ad-daliadau gael eu cefnogi ar ffurf cadarnhad ysgrifenedig gan feddyg sy'n dweud fod afiechyd hirdymor yn atal y dysgwr rhag parhau â'r cwrs.
- Dysgwyr y mae angen iddynt adael eu cwrs oherwydd salwch hirdymor aelod o'u teulu lle mai nhw yw'r prif ofalwr. Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan gadarnhad ysgrifenedig gan feddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Bydd ffioedd arholiadau a chofrestru ond yn cael eu had-dalu lle nad yw'r coleg wedi gorfod gwario arian ar y costau cysylltiedig.

5.5 Unrhyw gostau a brofwyd gan y Noddwyr sy'n talu ffioedd dysgu:

- Nid yw'r Coleg yn rhedeg cwrs neu mae'n cau'r cwrs ar ôl iddo ddechrau

**AILASESU FFIOEDD - CYRSIAU ADDYSG UWCH (Lefel 4 ac uwch)**

5.6 Bydd **Dysgwyr** AU sy'n terfynu eu hastudiaethau (tynnu allan, atal a throsglwyddo) yn cael ffi atebolrwydd wedi'i chodi yn eu herbyn fel a ganlyn:

**Cyrsiau HNC/HND Amser Llawn a Rhan-amser**:

- Cyfnod gras o hyd at 14 diwrnod o **ddyddiad dechrau swyddogol y cwrs** (yn dibynnu ar y brifysgol) – atebolrwydd ffioedd dysgu o 0%
- Unrhyw bresenoldeb ar ôl y cyfnod gras hyd at ddiwedd Tymor 1 – atebolrwydd ffioedd dysgu o 25%
- Unrhyw bresenoldeb am Dymor 2 – atebolrwydd ffioedd dysgu o 50%
- Unrhyw bresenoldeb am Dymor 3 – atebolrwydd ffioedd dysgu o 100%

**Myfyrwyr rhan-amser ar gyrsiau Proffesiynol a chyrsiau Cyllid (AAT):**

- Yn unol â chanllawiau AB 5.1

**Yn achos pob sefyllfa arall, y dysgwr sy'n atebol am ffi lawn y cwrs**.